

# Adeiladu llesiant ariannol Cymru ar ôl Covid-19

**Y stori hyd yn hyn**
Hydref 2020

moneyandpensionsservice.org.uk

Gwasanaeth Arian a Phensiynau

# Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw

**Gyda diolch i'r bobl o'r sefydliadau canlynol am eu cymorth a mewnbwn i'r gwaith strategaeth yng Nghymru hyd yn hyn:**

Corff Aelodaeth Ace Credit Unions

Age Cymru

Banc Cambria

Banc Barclays

Busnes yn y Gymuned

Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili

Undeb Credyd Cambrian

Campaign for Learning

Undeb Credyd Caerdydd ar Fro:

CBI Cymru

Canolfan Cyllid Cymunedol Ewrop

Cyngor Sir Ceredigion

Chwarae Teg

CIPD Cymru

Cyngor ar Bopeth

Cyngor ar Bopeth Cymru

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu

Undebau Credyd Cymru

Cymorth Cymru

Cynghrair Pobl Hŷn Cymru

Cynghrair Dileu Credyd Cost Uchel

Cyfadran Iechyd, Prifysgol John Moores Lerpwl.

Undeb Amaethwyr Cymru

Ffederasiwn y Busnesau Bach

Ferret Information Systems

Cyngor Sir y Fflint

Cwmni Buddiant Cymunedol Greenstream

Cyngor Gwynedd (Economi)

Hafal

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Legal and General

Llamau

Mind Cymru

Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol

Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Money Saviour

Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol Moneyline

Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol

NatWest

NEA Cymru

North Wales Training

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn

Gwasanaethau Ieuenctid Sir Benfro

Swyddfa'r Post

Cyngor ar Bopeth Powys

Ymddiriedolaeth y Tywysog

Cymdeithas Adeiladu Principality

Promo Cymru

Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf

Rhwydwaith Cyngor Rhanbarthol

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Responsible Finance

Riverside Advice

Scarlets

Shelter Cymru

Step Change

Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot

Prifysgol Abertawe

Tai Tarian

Y Gynghrair Buddsoddi a Chynilo (TISA)

Trivallis

Tasglu'r Cymoedd

Canolfan Cydweithredol Cymru

Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru

TUC Cymru

Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru

Llywodraeth Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymorth i Ferched Cymru

WEN Cymru

Fforwm Gallu Ariannol Gorllewin Cymru

Youth Cymru

# Cynnwys

**Rhagair** 2

**Ein dull gweithreduCynllun Cyflawni Cymru** 3

**'Ymateb sy'n Ailadeiladu' yn wyneb Covid-19** 4

**Y cyd-destun polisi i Gymru** 5

**Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol** 6

**Effaith Covid-19 yng Nghymru** 7

**Sut wnaeth MaPS ymateb?** 8

**Llywio Argymhellion y DU Gyfan** 9

Y broses o lywio 'argymhellion ailadeiladu' ledled y DU 9

Byrddau Crwn Cymru: 9

**Sylfeini Ariannol** 10

**Cenedl o Gynilwyr** 11

**Pwysigrwydd Credyd** 12

**Cyngor ar Ddyledion Gwell** 13

**Ffocws ar y Dyfodol** 14

**Iechyd Meddwl** 15

**Rhyw** 16

**Gweithle** 17

**Gwledigrwydd yng Nghymru** 18

**Argymhellion y DU** 19

**Ymateb y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS)** 22

**Sut bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu yng Nghymru?** 24

Argymhellion penodol i Gymru 24

Cefnogi plant a phobl ifanc 24

Cefnogi pobl o oedran gweithio 24

Helpu pobl hŷn 25

Y CASGLIAD A'R CAMAU NESAF 25

**Ymateb y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS)** 26

**Atodiad 28** 28

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i gynrychiolwyr Cymru ar grwpiau Her y DU am eu hymroddiad ac angerdd.  Maent wedi bod yn hyrwyddo llesiant ariannol pobl yng Nghymru ac wedi bod yn hael iawn gyda'u hamser yn cadeirio byrddau crwn Cymru. Hoffwn hefyd ddiolch i'r 100 o unigolion o dros 70 o sefydliadau gwahanol yng Nghymru ac ar draws y DU am rannu eu profiadau, eu meddyliadau a herio rhagdybiaethau. Yn olaf, diolch i gydweithwyr Llywodraeth Cymru am eu cydweithrediad a chydweithwyr MaPS o Gymru a bob cwr o'r DU am eu hymgysylltiad a chymorth parhaus. Lee Phillips, Rheolwr Cymru, MaPS

# Rhagair

## Gan Gadeiryddion Byrddau Crwn Rhithiol Cymru

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith nad ydym wedi gweld ei thebyg o'r blaen i bobl Cymru, gan effeithio ar fywydau bob dydd mewn ffordd a oedd yn annirnadwy o'r blaen. Yn benodol, mae'r effaith ar yr economi wedi cael ei theimlo gan unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled ein cymdeithas, gan adael nifer angen cymorth, cyngor ac arweiniad i ailadeiladu eu gwytnwch ariannol.

Dechreuodd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) waith ar gamau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith yr argyfwng yn gynnar drwy ei Grwpiau Her annibynnol, a benodwyd i wneud argymhellion dyfeisgar a blaengar i fwrw ymlaen â Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol. Mae MaPS wedi ymateb ar lefel y DU drwy ddatblygu set o argymhellion sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion allweddol o ran llesiant ariannol yn sgil yr argyfwng.

Diben yr adroddiad hwn, felly, yw amlinellu camau gweithredu y gellid eu cymryd yn y tymor byr i ailadeiladu llesiant ariannol yng Nghymru tan ddiwedd 2021. Mae hefyd yn amlinellu'r 'stori hyd yn hyn' gan ei fod yn ymwneud â datblygu gweithgareddau i gyflawni nodau uchelgeisiol Strategaeth y DU yng Nghymru erbyn 2030.

Fel aelodau o Grwpiau Her y DU, ein rôl oedd sicrhau bod llais Cymru a'i phrofiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith hwn ar lefel y DU. I'r perwyl hwnnw, ers gwanwyn eleni, rydym wedi bod yn ymwneud â chasglu tystiolaeth drwy gyfres o fyrddau crwn rhithiol gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill o bob cwr o'r genedl. Mae ein canfyddiadau wedi helpu i lywio'r gwaith o gyflawni Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol a'r cynllun cyflawni yng Nghymru. Hoffem ddiolch i holl aelodau Grwpiau Her y DU am eu cefnogaeth, cydweithrediad a brwdfrydedd, yn enwedig y rheiny a ymgysylltodd â'r byrddau crwn rhithiol yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod Covid-19 wedi cael, ac y bydd yn parhau i gael, effaith sylweddol ar lesiant ariannol pawb yng Nghymru. Mae adnabod datrysiadau a fydd yn helpu i adfer gwytnwch ariannol yn y tymor byr - ar gyfer unigolion a chymunedau - yn hanfodol i adeiladu'r sylfeini cadarn sy'n ofynnol i sicrhau llwyddiant Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol yn y blynyddoedd i ddod.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i adnabod blaenoriaethau ariannol strategol ar gyfer Cymru a'r DU, gan ddatblygu cynigion beiddgar, uchelgeisiol a llunio cynlluniau i gefnogi eu cyflawni.

### Enwau'r cynrychiolwyr o Gymru ar fyrddau crwn y DU a'u sefydliadau

- Adrian Nicholas, Hafal
- Bill Hudson, Gwasanaethau Undeb Credyd ACE
- Charlotte Anscombe, Llywodraeth Cymru
- Fran Targett, Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol
- George Jones, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Helen Antoniazzi, Chwarae Teg
- James Harper, Cymdeithas Adeiladu Principality
- Paul Neave, Llywodraeth Cymru
- Sally Hunt, Llywodraeth Cymru

# Ein dull gweithredu
## Cynllun Cyflawni Cymru

Ein hymrwymiad gwreiddiol oedd cyflawni cynigion cyflawni hirdymor ar gyfer Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol erbyn diwedd Mehefin eleni a chreu cynllun cyflawni Cymru. Wrth i argyfwng Covid-19 ddatblygu, roedd hi'n glir ein bod yn mynd i orfod gwneud pethau'n wahanol.

Gwnaethom ddau newid i'n dull gweithredu.

Cytunasom fod angen i ni gyhoeddi rhai argymhellion brys i fynd i'r afael â goblygiadau argyfwng Covid-19 i lesiant ariannol yn 2020. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli'r 'stori hyd yn hyn' yng nghyd-destun ymgysylltu yng Nghymru ar y Strategaeth, ers ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Dengys sut mae ein partneriaid a rhanddeiliaid wedi rhoi mewnbwn i'r syniadaeth y tu ôl i argymhellion y DU ac mae'n rhoi cipolwg ar sut y bydd yr argymhellion tymor byr yn cael eu cyflawni yng Nghymru.

Cytunasom mai Rhagfyr 2020 ddylai'r dyddiad rhesymegol fod ar gyfer cyflawni ein cynigion cyflawni ar gyfer y tymor canolig a hir, i'w cyhoeddi ym mis Mawrth 2021. I wneud hyn, byddwn yn gweithio ag arweinwyr, llunwyr polisi, ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill o'r sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru, i ddatblygu Cynllun Cyflawni Cymru 10 mlynedd ar gyfer Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol.

Wrth i chi ddarllen yr adroddiad hwn, bydd pob un ohonom yn agos iawn at gwblhau'r cynigion hynny.



# 'Ymateb sy'n Ailadeiladu' yn wyneb Covid-19

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi pennu ffocws culach i ni ein hunain yn fwriadol: gwneud argymhellion y gellid eu rhoi ar waith yn gyflym - i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ym mis Rhagfyr 2021, ac yn gynharach o lawer lle bo'n bosib.

Yn ogystal, fel yr amlygwyd yn y rhagair, cynaliasom ystod o 'fyrddau crwn rhithiol' wedi'u bwriadu yn gyntaf i ganolbwyntio ar y cynllun cyflawni ond yna fe newidiwyd eu diben i gymryd i ystyriaeth Covid-19. Yna, cynaliasom ragor o waith ymgysylltu i wneud yn siŵr bod y mesurau 'ailadeiladu' tymor byr ar gyfer Covid-19 yn cael eu datblygu ar lefel y DU yn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau yng Nghymru, drwy weithio gyda chynrychiolwyr o Gymru ar Grwpiau Her y DU MaPS a fforwm Cymru MaPS.

Mae pobl sy'n arbenigwyr yn eu maes, pobl sydd â phrofiad go iawn a phartneriaid allweddol, wedi dod ynghyd o bob cwr o Gymru a'r DU i adnabod argymhellion o fewn yr adroddiad hwn. I wneud yr argymhellion hyn yn gyraeddadwy yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod ein cynlluniau yn cymryd i ystyriaeth tirwedd ddeddfwriaethol a pholisi cymdeithasol datganoli yng Nghymru.

Gyda'n gilydd, rydym wedi amlinellu cynlluniau clir, uchelgeisiol ar gyfer sut y gallwn gyflawni ymateb sy'n ailadeiladu yn wyneb Pandemig y Coronafeirws a fydd yn bwydo i mewn i 'Gynllun Cyflawni' cyffredinol a all weithredu fel catalydd ar gyfer llesiant ariannol gwell i holl bobl Cymru.



# Y cyd-destun polisi i Gymru

Mae Cymru wedi cael Llywodraeth ers 1999. Yn y cyfnod hwnnw mae nifer o'r meysydd polisi sy'n cael eu cwmpasu gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau wedi cael eu datganoli yn cynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, cyngor ar ddyledion a thai. Mae partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru yn hanfodol ar gyfer gwaith MaPS yng Nghymru. I weld sut mae llesiant ariannol yn cyfrannu at ganlyniadau strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru, gweler y map polisi yn yr atodiad.



# Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol

Lansiwyd Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol yng Nghymru ym mis Mawrth 2020. Yn dilyn digwyddiadau gwrando ledled Cymru a'r DU, mae'n sefydlu pum "agenda ar gyfer newid" ac yn gosod nodau i'w cyflawni erbyn 2030. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys:

- **Sylfeini Ariannol:** 90,000 yn fwy o blant a phobl ifanc yn cael addysg ariannol werthfawr
- **Cenedl o Gynilwyr:** 86,000 yn fwy o bobl o oedran gweithio sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol ac yn cael eu gwasgu'n ariannol yn cynilo'n rheolaidd
- **Pwysigrwydd Credyd:** 78,000 yn llai o bobl yn aml yn defnyddio credyd i dalu am fwyd neu filiau
- **Cyngor ar Ddyledion Gwell:** 60,000 yn fwy o bobl yn cael y cyngor ar ddyledion sydd ei angen arnynt; ar hyn o bryd dim ond 32% o'r rheiny y mae angen cyngor ar ddyledion arnynt, sy'n ei ddefnyddio
- **Ffocws ar y Dyfodol:** 223,000 yn fwy o bobl yn deall digon i gynllunio ar gyfer, ac yn ystod, eu cyfnod hwyrach mewn bywyd.

Bydd y strategaeth hefyd yn archwilio ffactorau a all wneud pobl yn fwy agored i anfantais ariannol, megis cyflyrau iechyd meddwl, gweithle a rhywedd.

Wrth i ni weithio tuag at ddatblygu cynllun cyflawni Cymru byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau ein bod yn edrych ar bob un o'r agendâu ar gyfer newid o safbwynt pobl â nodweddion gwarchodedig.

# Effaith Covid-19 yng Nghymru

### Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CCSC) Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws (CCIH)[1]

Hyd at 30 Mehefin 2020, mae 378,400 o gyflogaethau yng Nghymru wedi eu rhoi ar ffyrlo drwy'r cynllun CCSC. Mae hyn yn gyfradd derbyn o 29%, y cyd-isaf o holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Mae 73% o gyflogaethau mewn llety a gwasanaethau bwyd a'r celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill wedi eu rhoi ar ffyrlo drwy CCSC. Mae 108,000 o bobl yng Nghymru wedi hawlio grant CCIH, sef 77% o'r boblogaeth gymwys. Pobl hunangyflogedig sy'n gweithio yn y sector adeiladu yng Nghymru oedd â'r gyfran fwyaf o'r holl hawliadau (29%) ac roedd ganddo un o'r cyfraddau derbyn uchaf (84%).

### Biliau a Phatrymau gweithio[2]

Mae 4% o bobl ar ei hôl hi gyda biliau, neu'n cael trafferth yn gyson i dalu biliau, lefel debyg i'r hyn ydoedd ym mis Mai a mis Mehefin 2020. Mae 4% o bobl wedi cael gwyliau ad-dalu ar gyfer o leiaf un benthyciad neu fil. Dywedodd 17% o bobl fod y coronafeirws wedi achosi problemau i sefyllfa ariannol eu haelwyd, i lawr o 24% ym mis Mai a mis Mehefin 2020.

### Credyd Cynhwysol

Mae 6% o oedolion o oedran gweithio wedi derbyn taliadau Credyd Cynhwysol yn ystod y 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2020. Mae 2% arall wedi gwneud cais am Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod hwnnw.

### Tai

Ym mis Mai 2020, dywedodd 8% o bobl sy'n rhentu eu cartrefi eu bod ar ei hôl hi gyda'u rhent. Dywed 45% o'r rhain mai'r rheswm am hynny yw'r coronafeirws a dywed 25% mai eu hincwm yn isel yn gyffredinol yw'r rheswm. O'r bobl gyda morgais, mae 13% wedi trefnu 'gwyliau rhag talu morgais'.

### Cyflogaeth

Os fis Gorffennaf 2020 ymlaen, mae 48% o bobl mewn gwaith cyflogedig, canlyniad tebyg i fis Mai 2020, ac mae 8% ar ffyrlo. Mae gwasanaeth ystadegau Llywodraeth Cymru wedi awgrymu bod cyfran uwch Cymru o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn debygol o fod yn ffactor yn y gyfran is o weithwyr ar ffyrlo.

### Y Gronfa Cymorth Dewisol

Mae'r galw am Daliadau Cymorth mewn Argyfwng, i helpu unigolion gyda chostau byw hanfodol yn dilyn neu yn ystod argyfwng neu drychineb, wedi cynyddu ers i Covid-19 ein taro. Yn ystod y cyfnod o 18 Mawrth pan ddechreuwyd cofnodi achosion Covid-19, hyd at 7 Awst 2020, mae 70,248 o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng y Gronfa Cymorth Dewisol wedi'u gwneud, cyfanswm o £4.3 miliwn, y dyfynnodd 53,062 Covid-19 fel yr achos, cyfanswm o £3.2 miliwn.

Mae'r galw am Daliadau Cymorth i Unigolion, taliad cymorth ar ffurf nwyddau gwyn hanfodol neu ddodrefn cartref i gynorthwyo gyda gadael, neu osgoi byw mewn, gofal sefydliadol ac i helpu'r unigolion hynny aros o fewn eu cymunedau, wedi lleihau ers i fesurau'r cyfnod clo gael eu cyflwyno.

Am ragor o wybodaeth ynghylch cymorth Llywodraeth Cymru dilynwch y ddolen hon: **https://gov.wales/work-skills-financial-support**

1 https://gov.wales/coronavirus-job-retention-scheme-and-self-employment-income-support-scheme-statistics-30-june-2020

2 https://gov.wales/national-survey-wales-monthly-survey-july-2020-html

# Sut wnaeth MaPS ymateb?

Ymatebodd MaPS i anghenion uniongyrchol cwsmeriaid drwy ei linellau cymorth a gwefannau yn rhoi arweiniad ar arian a phensiynau.

I helpu cwsmeriaid i lywio effeithiau sy'n datblygu'n sydyn Covid-19 ar eu harian a phensiynau, bu i MaPS:

- Ddatblygu **hwb Coronafeirws** ar-lein dwyieithog (Coronafeirws - beth mae'n ei olygu i chi a beth sydd gennych hawl iddo) gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar draws ystod o bynciau, yn cynnwys hawliau a budd-daliadau pobl gyflogedig a'r hunangyflogedig, gwyliau rhag talu, cyllid ceir, tai, pensiynau, sgamiau a mwy;
- Sefydlu **grŵp Facebook newydd** (Coronafeirws a'ch arian) a gymedrolir gan arbenigwyr mewn arweiniad, gyda dros 10,000 o gyfranogwyr gweithredol a grŵp arall ar gyngor ar ddyledion.
- Cyflwyno **opsiwn Covid-19 ar ein llinell gymorth arweiniad ariannol** a sianeli digidol i helpu i reoli galw a sicrhau y gallai cwsmeriaid gael y cymorth sydd ei angen arnynt mor ddi-lol ag sy'n bosib.
- Datblygu **Teclyn Llywio Ariannol** yn Gymraeg a Saesneg, i helpu pobl y mae Covid-19 wedi effeithio ar eu sefyllfaoedd ariannol, drwy ddarparu arweiniad wedi'i deilwra i'w hanghenion.

## Rheolwr Partneriaeth

Defnyddiwyd ac ehangwyd perthnasoedd allweddol presennol gan ein Rheolwr Partneriaeth Cymru i sicrhau bod neges MaPS ynghylch y cymorth a'r adnoddau ar gael i helpu sefydliadau ac unigolion yn cael ei chlywed yn glir. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys;

## Y GIG

Rydym wedi datblygu perthnasoedd gyda sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Mae un partner penodol yn chwarae rhan flaenllaw yn addysg, hyfforddiant, datblygiad a siapio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru. Maent hefyd yn cydlynu a rheoli Grŵp Iechyd a Llesiant GIG Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y rheiny'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn cynnwys Llywodraeth Cymru ac ymunodd Rheolwr Partneriaeth Cymru â Grŵp Iechyd a Llesiant GIG Cymru ar ôl i bandemig Covid-19 ddechrau i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau ac i gynnig cymorth.

## Cymorth Gyrfaoedd a Chyflogaeth yng Nghymru

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r arweiniad ar arian a phensiynau y gallwn ei gynnig i bobl y mae Covid-19 wedi effeithio ar eu sefyllfaoedd ariannol. Mae hyn yn cynnwys ein partneriaeth â sefydliadau cyngor gyrfaoedd a chymorth cyflogaeth gyda chymorth o safbwynt llesiant ariannol o fewn eu gweithle eu hunain, ond hefyd drwy godi ymwybyddiaeth o'n harweiniad ar arian a phensiynau gyda'u partneriaid. Rydym wedi estyn allan i nifer o gyflogwyr i gynnig cyngor ariannol am ddim, diduedd a chyfrinachol a helpu i ddatblygu llyfrgell o adnoddau a all gefnogi gweithwyr a'u teuluoedd drwy gyfnodau anodd yn wyneb Covid-19. Mae cwmnïau mawr a ffederasiynau cynrychiolwyr wedi ymgysylltu i gyfathrebu'r gwasanaethau a'r cymorth y gall MaPS eu darparu yn y maes hwn.

Mae ein gwaith gyda phartneriaid yng Nghymru hefyd yn cynnwys cymorth ar ôl colli swydd y gallwn ei gynnig o amgylch arweiniad ar arian a phensiynau hefyd. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â chyflogwyr mawr gan ddisgwyl nifer fawr o ddiswyddiadau yn gysylltiedig â Covid-19.

# Llywio Argymhellion y DU Gyfan

## Y broses o lywio 'argymhellion ailadeiladu' ledled y DU

Pan darodd argyfwng Covid-19 y DU, roedd hi'n glir fod y pandemig wedi cyflwyno newid i amgylchedd gweithio pawb ac ystod o effeithiau corfforol, meddyliol ac ariannol i'w hystyried.

Gan gydnabod hyn, penderfynodd MaPS greu 'ymateb sy'n ailadeiladu' i archwilio beth y gellid ei wneud i ailadeiladu gwytnwch ariannol cyn diwedd 2021. Cynhaliwyd y gwaith hwn yn bennaf gan 'Grwpiau Her y DU' gyda chynrychiolydd o Gymru ar bob grŵp. Cadeiriodd y cynrychiolwyr hyn gyfres o drafodaethau 'bwrdd crwn rhithiol' gyda rhanddeiliaid ledled Cymru. Mae'r holl drafodaethau hyn, ar lefel y DU ac yn benodol i Gymru wedi helpu i lywio'r argymhellion DU gyfan terfynol.

## Byrddau Crwn Cymru:

Yn dilyn y weminar yn lansio Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol ym mis Mawrth 2020, cynaliasom fyrddau crwn rhithiol rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf i gael mewnwelediad, dadleuon a sylwadau o bob rhan o'r sector yng Nghymru.

Gan ddechrau ym mis Ebrill, roedd y byrddau crwn yn seiliedig ar agendâu ar gyfer newid a themâu trawsbynciol y strategaeth. Cymerodd dros 70 o sefydliadau gwahanol ran, ac mae ein diolch i bob person sydd wedi rhannu eu mewnwelediad a phrofiad gyda ni. Roedd y byrddau crwn hyn yn canolbwyntio ar y materion tymor byr sy'n codi yn sgil Covid-19 ac roeddent hefyd yn cyffwrdd â materion tymor canolig i'r tymor hir sy'n benodol i Gymru.

Ailgynullodd y byrddau crwn yng Nghymru drwy gydol mis Mehefin i glywed argymhellion drafft y DU i Covid-19. Sicrhaodd hyn fod dadleuon a sylwadau o Gymru wedi'u cynnwys a'u hadlewyrchu yn Argymhellion y DU.

Isod, ar gyfer pob un o'r Agendâu ar gyfer Newid a Themâu Trawsbynciol, rydym yn crynhoi byrddau crwn mis Ebrill. Roedd byrddau crwn mis Mehefin yn rhoi cyfle i gyfranogwyr fwydo i mewn i argymhellion cychwynnol y DU, felly rydym wedi nodi manylion y sgyrsiau isod.

# Sylfeini Ariannol



Y canlyniad ar gyfer Sylfeini Ariannol yw i 90,000 yn fwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru gael addysg ariannol werthfawr.

Er mwyn deall yn glir y materion o'r amgylcheddau addysgol amrywiol y mae plant a phobl ifanc yn dod i gysylltiad â nhw, cynaliasom bedwar bwrdd crwn wedi'u hanelu at leoliadau gwahanol ac arbennig. Roedd y rhain yn cynnwys rhieni a'r blynyddoedd cynnar (yn cynnwys y cyfnod sylfaen), lleoliadau addysgol (e.e. ysgolion cynradd ac uwchradd) lleoliadau eraill (megis gwasanaethau ieuenctid, cyfiawnder ieuenctid, colegau addysg bellach ac amgylcheddau hyfforddi etc.) ac yn olaf pobl ifanc yn y gweithle.

## Dywed data a thystiolaeth a gasglwyd cyn Covid-19 yng Nghymru:

- Bod 231,000 o blant a phobl ifanc yn cael addysg ariannol werthfawr yng Nghymru ar hyn o bryd[3]
- Bod 89% o'r rheiny rhwng saith ac 11 oed yn gwybod beth yw cyfrif banc (86% yn y DU).
- Bod 56% o'r rheiny â chyfrif banc, yn talu arian i mewn eu hunain, o'i gymharu â 48% ar draws y DU.
- Bod 62% o blant yng Nghymru yn derbyn arian poced, sydd fymryn yn llai na chyfartaledd y DU (65%).

## Crynodeb o'r hyn a glywsom ym mis Ebrill

Gellir dod o hyd i adroddiadau llawn o fyrddau crwn mis Ebrill yma ar **amgylcheddau addysgol ffurfiol**, yma ar **y blynyddoedd cynnar**, yma ar **amgylcheddau addysgol anffurfiol**, ac yma ar **bobl ifanc yn y gweithle**.

- Mae nifer o deuluoedd wedi cael eu taro'n galed yn ariannol gan Covid-19 ac yn ei chael hi'n anodd.
- Mae dysgu o adref yn cynnig cyfle i gefnogi rhieini gydag addysgu eu plant am arian.
- Mae pobl ifanc yn y gweithle yn wynebu risg uwch o gael eu rhoi ar ffyrlo a all arwain at broblemau ehangach megis digartrefedd.

## Crynodeb o sgyrsiau yn Haf 2020

Bydd defnydd gwell o dechnoleg ac apiau i gyrraedd pobl ifanc yn bwysig gan fod ymgysylltu yn y byd digidol wedi cynyddu o ganlyniad i Covid-19. Mae cyd-greu unrhyw adnodd i bobl ifanc yn hanfodol ac mae sawl llwybr i safle 'un stop' am gymorth yn ofynnol yn ogystal ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth.

Mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn cynnig cyfle gwych i ymgorffori addysg ariannol ar gyfer plant a phobl ifanc wrth wraidd system addysg Cymru. Dylid adnabod cyfleoedd hefyd lle gellid amlygu materion o ran bwlch cyflog rhwng y rhywiau a cham-drin ariannol yn yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd sy'n thema drawsbynciol o'r cwricwlwm newydd. Efallai y bydd angen cymorth, adnoddau a hyfforddiant ar athrawon i adeiladu eu hyder wrth ddarparu addysg ariannol. Gellid gwneud hyn drwy'r Consortia Addysg Rhanbarthol ac fel rhan o ddysgu proffesiynol.


Pobl ifanc yn y gweithle sy'n cael eu taro galetaf gan Covid-19. Mae cyrraedd y bobl ifanc hyn, naill ai drwy eu cyflogwyr neu drwy hyfforddiant prentisiaeth yn cynnig y cyfle i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n derbyn hyfforddiant sgiliau ariannol a chymorth atgyfeirio.

Sut ydym yn newid meddylfryd ac agwedd pobl ifanc pan ddaw i'w harian?  A allwn ni ddefnyddio Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant, sy'n dechrau aeddfedu ym mis Medi, fel cyfle i ymgysylltu â phobl ifanc?

Mae'n rhaid i offer ac adnoddau fod yn ddwyieithog yn enwedig wrth ddatblygu sianeli cyfathrebu i rieni/gofalwyr siarad am arian. Bydd angen i nifer o sefydliadau sy'n cefnogi teuluoedd ac eraill yn y gymuned, gadw at eu Cynllun Iaith Gymraeg.

3 https://www.fincap.org.uk/en/insights/children-and-young-people-financial-capability--wales

# Cenedl o Gynilwyr



Y canlyniad ar gyfer Cenedl o Gynilwyr yw i 86,000 yn fwy o bobl sy'n 'ei chael hi'n anodd yn ariannol' ac yn 'cael eu gwasgu'n ariannol' i fod yn cynilo'n rheolaidd. Daw meintiau segmentau 'yn ei chael hi'n anodd yn ariannol' ac yn 'cael eu gwasgu'n ariannol' gan MaPS, Segmentu Gwytnwch Ariannol. Ar hyn o bryd mae MaPS yn diwygio'r ddogfen segmentu, ond mae disgwyl y bydd y fersiwn ddiwygiedig yn parhau i adlewyrchu casgliadau eang fersiwn gynharach y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Er mwyn deall yn glir y materion sy'n atal pobl rhag cynilo digon, cynaliasom fwrdd crwn yn dwyn ynghyd rhanddeiliaid arbenigol o ystod amrywiol ond cynrychioladol o sefydliadau o fanciau i undebau credyd, a sefydliadau cymunedol yn cynnwys chwaraeon a chyngor ar bopeth.

## Dywed data a thystiolaeth a gasglwyd cyn Covid-19 yng Nghymru

- Bod 54% o bobl yng Nghymru yn cynilo'n rheolaidd, cyfanswm o 631,000 o bobl[4].
- Bod gan 27% o oedolion yng Nghymru lai na £100 wedi'i gynilo.
- Nad oes gan 53% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gynllun ar gyfer eu harian yn ystod ymddeoliad.
- Bod 84% o oedolion yng Nghymru yn credu ei bod yn bwysig cynilo arian ar gyfer diwrnod glawog
- Bod 71% o oedolion yng Nghymru yn dweud eu bod yn casáu benthyca ac y byddai'n well o lawer ganddynt gynilo ymlaen llaw.

## Crynodeb o'r hyn a glywsom ym mis Ebrill

Gellir dod o hyd i adroddiad llawn yma

- Mae staff undebau credyd yn gweithio o bell mewn ymateb i fwy o bobl yn cael eu gorfodi'n awr i ddefnyddio sianeli digidol o ganlyniad i'r cyfnod clo.
- Mae mwy o bobl yn hawlio credyd cynhwysol felly mae mwy yn debygol o fod yn gymwys i elwa o'r rhaglen 'Cymorth i Gynilo' (menywod yn benodol).
- Bydd pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn ei chael hi'n fwy anodd wrth i wasanaethau symud ar-lein.
- Mae gwasanaethau cymorth yn rhybuddio pobl am sgamiau.

## Crynodeb o sgyrsiau yn Haf 2020

Mae cyfle i ymgysylltu â grwpiau cymunedol megis y Sgowtiaid a Chlybiau Pêl-droed a allai gynnig mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â mwy o blant.

Gallai cynllun cymhelliant i annog cynilo sy'n caniatáu cynilo symiau bychain, fod yn fuddiol a gallai ffurfio rhan o'r rhaglen drafodaeth ar gyfer unrhyw fforwm MaPS/Natwest i ddatblygu neges cynilo gyffredin. Er mae angen amlygu'r gwahaniaeth clir rhwng cynllun cymhelliant a gamblo.

Gallai undebau credyd yng Nghymru chwarae rôl benodol yn cydlynu gweithgarwch gyda phobl ifanc 16-18 oed gyda chronfeydd Ymddiriedolaeth Plant sy'n aeddfedu, i gynyddu lefelau addysg a hyrwyddo mecanweithiau cynilo priodol a chynhyrchion olynol. Mae gan Undebau Credyd y potensial i helpu i ymgorffori diwylliant o gynilo yn gyffredinol, drwy gynorthwyo gydag ymgysylltu â phobl ifanc ar yr adeg addysgadwy hon, pan fydd llawer yn dod i gysylltiad â swm mawr o arian am y tro cyntaf.

4 Arolwg Gallu Ariannol y Gwasanaeth Arian a Phensiynau 2018

# Pwysigrwydd Credyd



Y canlyniad ar gyfer Pwysigrwydd Credyd yw i 78,000 yn llai o bobl ddefnyddio credyd i dalu am fwyd neu filiau. I ddeall y dull gorau o gyflawni hyn, cynaliasom ddau fwrdd crwn, un a oedd yn edrych ar fynediad at gredyd fforddiadwy, ac un arall a oedd yn edrych ar ddefnydd o gredyd. Daethom â rhanddeiliaid ynghyd yn cynnwys banciau, undebau credyd, sefydliadau cyllid datblygu cymunedol a'r rheiny sy'n gweithio â chymunedau BAME i'n helpu i gyflawni ein nod.

## Dywed data a thystiolaeth a gasglwyd cyn Covid-19 yng Nghymru:

- Bod gan 47% o oedolion yng Nghymru (1.2 miliwn) fenthyciadau heb eu gwarantu[5].
- Bod 71% o oedolion yng Nghymru (1.8 miliwn) yn dweud eu bod yn casáu benthyca ac y byddai'n well o lawer ganddynt gynilo ymlaen llaw.
- Bod 11% o oedolion yng Nghymru (0.3 miliwn) sydd â chyfrif cyfredol yn aml yn y coch yn eu cyfrif.
- Bod 6% o oedolion yng Nghymru yn aml yn benthyca arian i glirio dyledion.

## Crynodeb o'r hyn a glywsom ym mis Ebrill

Gellir dod o hyd i adroddiad llawn yma ar **gredyd fforddiadwy** ac yma ar **ddefnydd o gredyd**.

- Mae gwasanaethau ar-lein yn gweld cyfraddau defnyddio sylweddol uwch
- Mae cynnydd sylweddol mewn ymholiadau am gymorth ariannol gan weithwyr ar gytundeb dim oriau, gweithwyr gìg a gweithwyr yn y diwydiannau manwerthu, trafnidiaeth ac adloniant.
- Adroddodd rhai darparwyr benthyciadau cymdeithasol heriau'n codi'n sgil lleihad uniongyrchol a sylweddol mewn benthyca gyda chynnydd tebygol mewn ôl-ddyledion a diffygion wrth i gleientiaid deimlo pwysau cynyddol o ganlyniad i'r pandemig.
- Efallai y bydd nifer o bobl mewn anawsterau ariannol yn ei chael hi'n fwy anodd benthyca gan ffynonellau cyfreithlon ac yn disgyn i grafangau darparwyr benthyciadau anghyfreithlon.

## Crynodeb o sgyrsiau yn Haf 2020

Gallai cynhyrchion newydd mewn ymateb i Covid-19 gael capiau llog i'r rheiny sy'n dod allan o daliadau gohiriedig yn sgil Covid-19, a gallai Undebau Credyd sy'n gwasanaethu grwpiau mwy bregus dderbyn rhagor o gymorth wrth ffurfio rhan o'r cynlluniau.

Roedd arian 'cyfrifon' banc segur a gafwyd gan Lywodraeth y DU wedi cael ei flaenoriaethu yng Nghymru ar bobl ifanc a'r amgylchedd. Teimlai mynychwyr y byrddau crwn y dylent ofyn i gael defnyddio unrhyw gyllid 'asedau' segur yn y dyfodol sy'n dod i Lywodraeth Cymru gan y byddai'n gyfle i roi hwb i wasanaethau cynhwysiant ariannol yng Nghymru.

Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o ddarparwyr a chynhyrchion credyd fforddiadwy. Dylem ystyried codi ymwybyddiaeth o ddarparwyr benthyciadau anghyfreithlon mewn unrhyw ymgyrch sy'n ymwneud â chredyd fforddiadwy.

Gallai darparwyr roi ystyriaeth i'r profiad Benthyciad Di-log sy'n gyffredin mewn nifer o gynhyrchion Ariannol Islamaidd. A all hyn fod ar gael i fusnesau hefyd?

5 Arolwg Gallu Ariannol y Gwasanaeth Arian a Phensiynau 2018

# Cyngor ar Ddyledion Gwell



Y canlyniad ar gyfer Cyngor ar Ddyledion Gwell yw i 60,000 yn fwy o bobl dderbyn y cyngor sydd ei angen arnynt. Gan fod darpariaeth Cyngor ar Ddyledion wedi'i ddatganoli i Gymru, daethom â rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r sector dyled, Llywodraeth Cymru a Chadeirydd y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol ynghyd mewn bwrdd crwn i ddeall yn well sut i gyrraedd y nod hwn.

## Dywed data a thystiolaeth a gasglwyd cyn Covid-19 yng Nghymru:

- Bod angen cyngor ar ddyledion ar oddeutu 230,000 o bobl yng Nghymru. Bod 23% yn dweud eu bod wedi'i ddefnyddio[6].
- Byddai 24% o oedolion yng Nghymru yn gorfod benthyca neu'n methu â thalu pe baent yn wynebu bil annisgwyl o £300.
- Bod 11% o oedolion yng Nghymru yn dweud eu bod yn aml yn brin o arian oherwydd eu bod yn gorwario.
- Bod 32% o oedolion yng Nghymru (0.8 miliwn) yn teimlo na fydd unrhyw beth a wnânt yn gwneud fawr o wahaniaeth i'w sefyllfa ariannol.

## Crynodeb o'r hyn a glywsom ym mis Ebrill

Gellir dod o hyd i adroddiad llawn **yma**

- Mae angen canolbwyntio ar atal yn ogystal â'r argyfwng uniongyrchol.
- Mae darparwyr yn cynllunio ar gyfer y don ddisgwyliedig o gleientiaid cyngor ar ddyledion sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi gan gynlluniau'r llywodraeth.
- A ellid cynnig cynlluniau ad-dalu wedi'u teilwra i bobl yn wyneb Covid-19?
- Mae cynlluniau ar gyfer diwedd y rhaglen ffyrlo a rhaglenni cymorth eraill angen bod yn glir ac ni ddylid cael gwared ar bob cymorth yr un pryd.

## Crynodeb o sgyrsiau yn Haf 2020

Mewn unrhyw adolygiad i ddeall effaith y cyfnod clo, dylid rhoi ystyriaeth i gapasiti darparwyr yn y dyfodol.

Mae gan Gymdeithasau Tai a gwasanaethau cymorth eraill sy'n cynnig arweiniad ariannol rôl, fel cefnogwyr 'cyn cyngor ar ddyledion'. A allwn ni ddarparu hyfforddiant priodol a chydweithio, i gefnogi taith y cleient i gyngor ar ddyledion? Gallai hyn hefyd gynyddu capasiti cyngor ar ddyledion.

Llais y defnyddwyr gwasanaeth ddylai fod yn brif fesurydd llwyddiant unrhyw gasglu tystiolaeth gan MaPS a darparwyr Cyngor ar Ddyledion i ddatblygu polisïau ledled y sector wella canlyniadau ar gyfer grwpiau bregus.

Mae angen i ni ystyried sut mae gwella mynediad at gyngor ar ddyledion a chredyd i bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl.

Mae cyllid i ddarpariaeth cyngor ar ddyledion wedi'i ddatganoli i Gymru, felly dylid cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn partneriaeth lawn â Llywodraeth Cymru.

6 Arolwg Gallu Ariannol MaPS 2018

# Ffocws ar y Dyfodol



Y canlyniad ar gyfer Ffocws ar y Dyfodol yw i 223,000 yn fwy o bobl ddeall digon i gynllunio ar gyfer, ac yn ystod, cyfnod hwyrach mewn bywyd. Cwmpaswyd y pynciau cynilion hir dymor a dadgyfuno hefyd gennym yn un bwrdd crwn a gadeiriwyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn.

## Dywed data a thystiolaeth a gasglwyd cyn Covid-19 yng Nghymru:

- Bod 74% o oedolion yng Nghymru yn credu ei bod yn bwysig rhoi arian o'r neilltu ar gyfer ymddeoliad[7].
- Nad yw 60% o bobl o oedran gweithio yng Nghymru wedi gwneud llawer neu ddim o gwbl i gynllunio eu harian ar gyfer ymddeoliad.
- Bod 38% o bobl o oedran gweithio yng Nghymru wedi cymryd camau dros y 12 mis diwethaf i ymgysylltu â'u pensiwn.
- Bod 71% o bobl 65 i 74 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd, tra mae 40% o bobl 75 oed neu hŷn yn defnyddio'r rhyngrwyd.

## Crynodeb o'r hyn a glywsom ym mis Ebrill

Gellir dod o hyd i adroddiad llawn yma

- Mae risg gynyddol o bobl yn atal eu taliadau pensiwn neu'n defnyddio eu pensiynau'n gynnar i gyllido unrhyw ddiffygion yn ystod ffyrlo neu ddiswyddiad.
- Awgryma llinellau cymorth mai ychydig iawn sydd wedi'i glywed gan bobl yn y grŵp oedran 50-64 oed y byddai gwerth eu pensiwn wedi lleihau'n sylweddol (oddeutu 15%). Ymddengys fod hyn yn gyfle da ar gyfer hyrwyddo prawf MOT yn hwyrach mewn bywyd gan roi cymorth i bobl ystyried eu hopsiynau ariannol.
- Gallai effaith y pandemig ar farchnadoedd a chyllid personol wneud cynilwyr yn fwy agored i sgamiau. Mae angen annog pobl i geisio arweiniad cyn eu bod yn defnyddio eu pensiynau.

## Crynodeb o sgyrsiau yn Haf 2020

Wrth i MaPS, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac eraill gynyddu eu sianeli digidol a sianeli cyflogwyr ar gyfer newidiadau yn hwyrach mewn bywyd, mae angen rhoi ystyriaeth i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Bydd angen i ni ystyried ymgyrch codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i bobl yn gwneud y newidiadau hyn.

Dylem, lle bo'n bosib, osgoi defnyddio termau fel "cyfoeth" y gellid ei gamddehongli i olygu bod cynilo yn rhywbeth i bobl fwy cefnog yn unig. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol wrth ddatblygu pecyn cymorth i fenywod i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o benderfyniadau ariannol sy'n effeithio ar fenywod.

Mae ansicrwydd swyddi yn broblem benodol mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru o ganlyniad i natur dymhorol cyflogaeth sy'n gwneud cynllunio ar gyfer pensiynau yn arbennig o anodd. Dylid ystyried incymau isel ac afreolaidd wrth ddatblygu unrhyw gymorth neu arweiniad i bobl sydd yng nghanol eu hoes. Mae hyn arbennig o bwysig i'r rheiny sy'n ystyried defnyddio eu pensiynau ar gyfer cymorth ariannol gan eu bod eisoes dan straen ariannol.

7 Arolwg Gallu Ariannol MaPS 2018

# Iechyd Meddwl



Fel thema drawsbynciol, mae angen i ni gymryd i ystyriaeth unrhyw effaith y mae iechyd meddwl unigolyn yn ei chael ar eu llesiant ariannol. Daeth gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol a gwasanaethau cyngor sy'n gweithio yn y sector ynghyd i amlygu'r cyfleoedd a'r heriau.

## Dywed data a thystiolaeth a gasglwyd cyn Covid-19 yng Nghymru:

- Bod un ym mhob pedwar o oedolion y DU yn profi problem iechyd meddwl bob blwyddyn[8].
- Yn aml mae cyswllt anorfod rhwng iechyd meddwl a phroblemau ariannol.
- Mae pobl sydd â diagnosis o broblemau iechyd meddwl yn debygol o fod: yn iau (18-44 oed) - 53% o'r rheiny â diagnosis o'i gymharu â 38% o'r rheiny heb ddiagnosis; yn rhentu - 40% o'r rheiny â diagnosis o'i gymharu â 23% o'r rheiny heb ddiagnosis; ac o gael plant yn byw â nhw - 38% o'r rheiny â diagnosis o'i gymharu â 32% o'r rheiny heb ddiagnosis.

## Crynodeb o'r hyn a glywsom ym mis Ebrill

Gellir dod o hyd i adroddiad llawn yma

- Bydd llai o fynediad at rwydweithiau cymorth yn gweld pobl yn ei chael hi'n fwy anodd ac mae pobl yn ei chael hi'n fwy anodd cael mynediad at weithwyr cymorth y gellir ymddiried ynddynt.
- Mae angen i gwmnïau gymryd i ystyriaeth pobl newydd yn cael eu heffeithio gan broblemau iechyd meddwl a bregusrwydd arall yn eu ffyrdd o weithio. Mae cymunedau BAME yn cael eu heffeithio'n benodol gan y sefyllfa bresennol.
- Mae effaith llai gweladwy ar gymunedau gwledig yn ystyr bod nifer o ffermwyr a oedd yn dal ail swyddi yn colli eu gwaith. Nid yw rhai ffermwyr o ganlyniad yn gallu talu biliau ac yn ogystal nid ydynt yn derbyn taliadau sy'n ddyledus iddynt.

## Crynodeb o sgyrsiau yn Haf 2020

Gallai elusennau Iechyd Meddwl mewn ardaloedd gwledig gynnwys hyfforddiant ar arweiniad ariannol i'w staff fel rhan o'u datblygiad, gan sicrhau bod cleientiaid yn cael eu hatgyfeirio i'r sectorau cyngor ar ddyledion a chredyd fforddiadwy.

Gallai fod yna gyfle i ymgysylltu â meddygon teulu a phresgripsiynwyr cymdeithasol i'w helpu i siarad am arian gan y byddant yn cael cyfleoedd cynnar i ymyrryd.

Mae Iechyd Meddwl yn fater pwysig mewn ardaloedd gwledig. Gan fod clybiau ffermwyr ifanc yn gryf yng Nghymru maent yn cynnig cyfle da i ddatblygu sianeli cyfathrebu i bobl siarad am arian ac iechyd meddwl.

Mae ansicrwydd o ran cyllid i ffermwyr yn effeithio ar eu gallu i gynllunio a chyllidebu ar gyfer eu dyfodol ac mae'n effeithio ar eu hiechyd meddwl.

Mewn arolwg diweddar, mae gwerthu cyngor ariannol a ddarperir gan gynghorwyr iechyd meddwl arbenigol wedi cael ei gefnogi gan ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr eraill y trydydd sector.

8 https://moneyandpensionsservice.org.uk/wp-content/uploads/2020/03/Mental-Health-and-Financial-Wellbeing-Challenge-Pack-UK-Strategy-for-Financial-Wellbeing.pdf

# Rhywedd



Mae sefyllfa ariannol wael y fenyw gyffredin yn cronni yn ystod eu hoes yn gyffredinol drwy gyfuniad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a digwyddiadau bywyd. Arweiniodd Chwarae Teg y bwrdd crwn hwn i'n helpu ni i ddeall yn well y materion a wyneba menywod yng Nghymru.

## Dywed data a thystiolaeth a gasglwyd cyn Covid-19 yng Nghymru:

- Bod y bwlch cyflog[9] rhwng y rhywiau yng Nghymru yn 13.5% yn 2019 ac yn cau ar raddfa gyflymach na'r DU yn gyffredinol. Bod darlun cymysg ledled Cymru, gyda bylchau cyflog rhwng y rhywiau mor uchel â 25% mewn rhai ardaloedd.
- Bod 27.5% o fenywod yn anweithgar yn economaidd, o'i gymharu â 19.4% o ddynion.
- Bod 90% o rieni sengl yn fenywod.
- Gallai cydraddoldeb rhywedd ychwanegu £13.6 biliwn at ragolwg Ychwanegu Gwerth Gros 2028 i Gymru.
- Bod cam-drin rhywiol yn digwydd mewn 99% o achosion cam-drin domestig[10]

## Crynodeb o'r hyn a glywsom ym mis Ebrill

Gellir dod o hyd i adroddiad llawn yma

- Mae angen i ni fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â rhywedd a'r cysylltiadau â llesiant ariannol mewn ysgolion
- Bydd effaith Covid-19 ar fusnesau micro yn effeithio ar fenywod yn benodol gan eu bod yn fwy tebygol o ymwneud â busnesau o'r fath.
- Mae'n debygol bod Covid-19 yn cynyddu cam-drin economaidd fel rhan o gam-drin domestig yn ehangach.
- Mae menywod yn aml yn fwy tebygol o gael eu hadnabod fel gweithwyr allweddol ac felly maent yn fwy agored i risgiau Covid-19 a gall hyn arwain at fenywod yn hawlio tâl statudol a all fod yn llai nag enillion arferol.

## Crynodeb o sgyrsiau yn Haf 2020

Pwysleisiwyd pwysigrwydd y ffurflen tystiolaeth o gam-drin domestig, a bydd cyfranogwyr yn cefnogi'n llawn ymgysylltiad ehangach ag unrhyw waith yng Nghymru.

Mae angen i ni ystyried benthyciadau teuluol yn Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol, sef strategaeth gyffredinol MaPS gan y byddai hyn yn cefnogi darparwyr arweiniad ariannol i ddatblygu teithiau cwsmer hygyrch i gefnogi menywod.

Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â llesiant ariannol mewn modelau addysg newydd ar gyfer cwricwlwm Cymru, megis materion fel y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, cam-drin economaidd a rheolaeth ariannol mewn teuluoedd. A ellid gwneud cysylltiad rhwng MaPS a gwaith Cymorth i Ferched Cymru ar y cwricwlwm.

Gellid cynnal gwaith i gryfhau protocol Llywodraeth Cymru ar y Dreth Gyngor a'i gysylltu â'r cynllun peilot, sef y Ffurflen Tystiolaeth o Gam-drin Domestig.

Mae menywod yn tueddu i ennill[11] llai ac felly ychydig iawn o gyllid brys sydd ganddynt. A allwn ni annog a chefnogi menywod i adeiladu swm bychan o gynilion wrth gefn.

9 https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/02/SOTN2019_english.pdf

10 https://centerforfinancialsecurity.files.wordpress.com/2015/04/adams2011.pdf

11 https://chwaraeteg.com/research/bright-report/

# Gweithle



Fel thema drawsbynciol, mae angen i ni gymryd i ystyriaeth unrhyw effaith y mae llesiant ariannol unigolyn yn ei chael ar eu bywyd gweithio. Gall y gweithle hefyd gefnogi gweithwyr tuag at wella eu llesiant ariannol wrth gynyddu cynhyrchiant hefyd. Daeth gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid ar draws sawl sector ynghyd i amlygu'r cyfleoedd a'r heriau i gyflogwyr a gweithwyr.

## Dywed data a thystiolaeth a gasglwyd cyn Covid-19 yng Nghymru:

- Bod 54% o oedolion yng Nghymru wedi meddwl am nodau ariannol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf[12].
- Bod 48% o oedolion yng Nghymru wedi cynllunio ar gyfer nodau ariannol yn ystod y 5 mlynedd nesaf.
- Bod 1 ym mhob 4 o weithwyr yn dweud eu bod wedi colli cwsg dros bryderon ariannol[13]
- Bod 89% o gyflogwyr yn cytuno bod pryderon ariannol yn cael effaith ar berfformiad gweithwyr yn y gweithle.
- Bod 46% yn dweud bod pryderon ariannol yn effeithio ar eu perthynas â'u rheolwr
- Bod mentrau bach a chanolig yng Nghymru yn cyfrif am 62.4% o gyflogaeth[14]
- Bod mileniaid BAME 47%yn fwy tebygol na'u cyfoedion gwyn o fod ar gontract dim oriau[15].

## Crynodeb o'r hyn a glywsom ym mis Ebrill.

Gellir dod o hyd i adroddiad llawn yma.

- Ni fydd rhai gweithwyr yn gallu dychwelyd i'r gwaith wrth i fusnesau gau, a lle bo'n berthnasol, gellid eu helpu i ystyried hunangyflogaeth.
- Mae mynediad at gyllid yn rhwystr mawr i gymunedau BAME rhag mynd yn hunangyflogedig.
- Mae Undebau Llafur yn hepgor y gofyniad i fod yn aelod i dderbyn cyngor cyfreithiol, ac efallai oherwydd hyn, mae cynnydd mawr mewn aelodaeth o undebau llafur yn cael ei weld ar hyn o bryd.
- Mae'r gymuned ffermio yn profi sawl goblygiad ariannol yn sgil y sefyllfa bresennol.

## Crynodeb o sgyrsiau yn Haf 2020

Gall diffyg Seilwaith Digidol mewn rhai ardaloedd o Gymru, ychwanegu at rwystrau sy'n atal pobl rhag gwella sgiliau digidol.

Dylid ystyried sut y gellir defnyddio modelau presgripsiynu cymdeithasol. A oes gan weithleoedd rôl i'w chwarae yn hyn?

Mae cyfleoedd yn bodoli i adeiladu cysylltiadau rhwng MaPS, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Gallai hyn helpu i gefnogi datblygiad offeryn diagnostig i helpu sefydliadau i bennu eu statws sylfaenol o safbwynt llesiant ariannol a blaenoriaethu anghenion gweithwyr.

Gallai MaPS lwyfannu gweminar Cymru gyfan gyda sefydliad busnes i ledaenu'r neges ynglŷn â phwysigrwydd llesiant ariannol. Gallai hyn hefyd gynnwys ymgynghoriad i geisio barn ar ddatblygu a lansio pecynnau cymorth o amgylch cyfleoedd o bwys.

12 Arolwg Gallu Ariannol MaPS 2018

13 https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/employer-best-practices/my-business

14 https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/size-analysis-active-businesses-2019-503.pdf

15 https://www.ucl.ac.uk/news/2020/mar/bame-millennials-greater-risk-being-unstable-employment

# Gwledigrwydd yng Nghymru

**Crynodeb o'r hyn a glywsom ym mis Mehefin - Adroddiad llawn yma.**

## Sylfeini Ariannol

Roedd problemau o ran cael mynediad at wasanaethau ariannol cyn y cyfnod clo gyda llai a llai o fanciau a Swyddfeydd Post mewn lleoliadau gwledig. Golyga hyn hefyd fod diffyg profiad corfforol go iawn o fanciau yn effeithiol ar addysg ariannol. Mae tlodi data hefyd yn broblem sylweddol i gymunedau gwledig.

## Cenedl o Gynilwyr

Mae'r premiwm gwledig yn golygu costau trafnidiaeth, costau byw cyffredinol a phrisiau siopa uwch, gan ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl gynilo mewn ardaloedd gwledig, Mae nifer o bobl yn byw mewn tai oddi ar y grid nwy. Mae eu biliau tanwydd yn debygol o fod yn uwch ac yn aml ychydig o gysylltedd ar-lein sydd ganddynt felly nid ydynt yn gallu cael bargeinion ar-lein. Mae nifer o bobl yn hunangyflogedig a all fod mewn swyddi tymhorol sy'n golygu bod rhaid iddynt gynilo'n helaeth ar gyfer misoedd distawach. Mae Swyddfa'r Post yn awr yn cyflymu ei chydweithrediad ag Undebau Credyd.

## Pwysigrwydd Credyd

Yn aml ystyrir darparwyr benthyciadau anghyfreithlon yn ffrindiau a theulu, a gall hynny gelu'r problemau y mae'r ffurf hon ar gredyd yn eu creu. Os yw pobl yn cymryd benthyciad gan rywun y maent yn eu hystyried yn ffrind byddant yn talu'r benthyciad hwnnw'n ôl yn gyntaf yn hytrach na dyledion sy'n flaenoriaeth.

Gall gorfod defnyddio olew i wresogi nifer o gartrefi mewn ardaloedd gwledig gynyddu'r angen ar gyfer credyd gan fod rhaid prynu olew mewn crynswth.

## Cyngor ar Ddyledion Gwell

Mae pryderon ynglŷn ag a fydd gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn dychwelyd i'r drefn arferol mor gyflym ag mewn ardaloedd eraill. Gallai Swyddfeydd Post helpu i atgyfeirio pobl i wasanaethau ariannol a chyngor. Mae pobl yn defnyddio mwy o ynni yn yr haf o gan eu bod yn gweithio o adref, gan ysgwyddo costau uwch nag arfer. Os dilynir hyn gan aeaf oer, gallai nifer weld cynnydd sylweddol yn eu dyled tanwydd.

## Ffocws ar y Dyfodol

Mae'r cyfnod clo wedi gweld nifer o bobl hŷn yn ymgysylltu â thechnolegau digidol nad oedd wedi gwneud hynny o'r blaen, fodd bynnag, mae rhai tasgau digidol yn anodd, a byddai angen deunyddiau argraffedig a chymorth ac arweiniad un i un ar lawer o hyd. Mae diffyg canghennau banc lleol yn ychwanegu at yr ymdeimlad o arwahanrwydd i bobl hŷn.



# Argymhellion y DU

### Llywio Argymhellion y DU Gyfan

Pan darodd argyfwng Covid-19 y DU gyfan, penderfynodd MaPS fod 'ymateb sy'n ailadeiladu' yn ofynnol fel rhan o ymdrech i archwilio beth y gellir ei wneud i adfer llesiant ariannol a gwytnwch ariannol cyn diwedd 2021. Hwylusir y gwaith hwn gan MaPS ond fe'i gwneir gan gadeiryddion annibynnol a phob 'Grŵp Her y DU' y maent yn perthyn iddynt.

Mae'r holl argymhellion a geir yn 'ymateb sy'n ailadeiladu' y DU yn ganlyniad misoedd o waith o fewn pob 'Grŵp her y DU' ac mae pob cadeirydd annibynnol wedi cytuno ar y cyd arnynt.

Er bod nifer o'r argymhellion o fewn 'ymateb sy'n ailadeiladu' y DU isod yn berthnasol i Gymru, mae'n bwysig nodi nad argymhellion MaPS ydynt a'u bod yn ddibynnol ar newid a chyflawni polisi sy'n gyfrifoldeb nifer o randdeiliaid allanol, partneriaid ac adrannau'r llywodraeth.

Gofynnwyd i randdeiliaid yng Nghymru wneud sylwadau ym mis Mehefin ar set o argymhellion drafft a ddyluniwyd gan grwpiau her y DU. Bwydodd mewnbwn gan ein rhanddeiliaid yng Nghymru yn uniongyrchol i mewn i'r broses o flaenoriaethu set o argymhellion gyda mwy o ffocws sy'n dilyn. Mae'r rhain wedi'u bwriadu i'w rhoi ar waith cyn gynted â phosibl yng nghyd-destun effeithiau cymdeithasol ac economaidd uniongyrchol Covid-19. Anelir at gyflawni'r argymhellion erbyn mis Rhagfyr 2021.


Ndidi Okezie


Eric Leenders


Marlene Shiels OBE


Ben Page


Sacha Romanovitch


Emma Douglas


Yr Athro Fonesig Carol Black


Jackie Leiper


Paul Farmer CBE


Lesley Titcomb CBE

# Adeiladu llesiant ariannol y DU yng ngoleuni Covid-19

Crynodeb o adroddiad gan y **Cadeiryddion Her Annibynnol** ar gyfer **Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol**

Ym mis Ionawr 2020, gofynnodd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau i ni ddod yn 'Gadeiryddion Her' annibynnol, gan ddwyn ynghyd 145 o'r meddyliau mwyaf profiadol, i ddatblygu cynigion ar gyfer cyflawni pum nod cenedlaethol Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol. Bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr eleni.

**Rydym wedi cyhoeddi adroddiad annibynnol, dros dro yn cynnwys 13 argymhelliad brys i fynd i'r afael ag effaith argyfwng Covid ar lesiant ariannol, nawr ac yn 2021. Maent yn ymateb i bedair thema allweddol a adnabuwyd o'n dadansoddiad o'r argyfwng.**

## Cyfleoedd o bwys

**Yn aml gorfodir pobl i feddwl eto am arian ar adegau trawsnewidiol yn eu bywydau. Ac mae Covid-19 yn rhoi pwysau ychwanegol - corfforol, ariannol, neu emosiynol - ar bawb yn y DU. Rydym yn adnabod 'cyfleoedd o bwys' a all wneud gwahaniaeth, yn ein tyb ni.**

## Credyd a dyled

**Mae credyd wedi bod yn glustog bwysig i helpu pobl drwy amgylchiadau anodd yn ystod argyfwng Covid. Yn anffodus, bydd gorddyled yn oblygiad i nifer, yn enwedig pan mae pobl yn colli eu swyddi.**

## Amgylchiadau bregus

**Mae Covid-19 wedi gwaethygu'r amgylchiadau a oedd eisoes yn achosi bregusrwydd i filiynau o bobl. Mae hydref 2020 yn adeg bwysig i gwmnïau gwasanaethau ariannol, ac eraill, ystyried sut maent wedi ymateb i'r argyfwng.**

## Argymhellion i'r llywodraeth

**Mae llywodraethau ledled y DU wedi gwneud pethau eithriadol a thrawiadol i ymateb i ergydion ariannol argyfwng Covid. Gwnaethom adnabod tri maes gweithredu pwysig gan Lywodraeth y DU y credwn y dylid eu parhau, ymestyn, neu gyflymu.**

# Ein 13 argymhelliad

## Cyfleoedd o bwys

Yn aml gorfodir pobl i feddwl eto am arian ar adegau trawsnewidiol yn eu bywydau. Ac mae Covid-19 yn rhoi pwysau ychwanegol - corfforol, ariannol, neu emosiynol - ar bawb yn y DU. Rydym yn adnabod 'cyfleoedd o bwys' a all wneud gwahaniaeth, yn ein tyb ni.

**Argymhelliad 1**
Dylai MaPS gynnal rhaglen tri cham o godi ymwybyddiaeth, cydlynu negeseuon a phartneriaid drwy ddull hyblyg, i gyrraedd: pobl mewn perygl o orymrwymo i gredyd cost uchel; pobl ifanc mewn trafferthion ariannol sy'n ei chael hi'n anodd pontio i gyflogaeth/addysg bellach; a phobl sydd mewn perygl o gael eu diswyddo.

**Argymhelliad 2**
Dylai rhaglen hyfforddiant 'Sgiliau Ariannol Hanfodol' gael ei chyd-ddylunio gan MaPS, gyda phobl ifanc, a'i hymgorffori ym mhob rhaglen a gefnogir gan y llywodraeth i bobl ifanc 16-24 oed a fydd yn arwain at swyddi a gyrfaoedd.

**Argymhelliad 3**
Dylai MaPS ddatblygu offer cefnogi sgyrsiau rhwng rhieni/plant i helpu teuluoedd sy'n wynebu heriau ariannol ac iechyd meddwl gyda'i gilydd, gan dynnu ar dechnegau profedig, 'Siarad, Dysgu, Gwneud' a dreialwyd gan MaPS yn y gorffennol.

**Argymhelliad 4**
Dylai MaPS greu rhestr wirio hwyrach mewn bywyd ar gyfer pobl dros 50 oed sydd wedi cael eu heffeithio gan argyfwng Covid, yn enwedig pobl sy'n wynebu'r risg o gael eu diswyddo.

## Amgylchiadau bregus

Mae Covid-19 wedi gwaethygu'r amgylchiadau a oedd eisoes yn achosi bregusrwydd i filiynau o bobl. Mae hydref 2020 yn adeg bwysig i gwmnïau gwasanaethau ariannol, ac eraill, ystyried sut maent wedi ymateb i'r argyfwng.

**Argymhelliad 5**
Dylai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ei wneud yn ofyniad penodol bod pob cwmni yn ymgorffori strategaethau bregusrwydd sy'n adlewyrchu'r ffyrdd y mae Covid-19 wedi dwysáu bregusrwydd presennol, a rhoi pobl newydd mewn amgylchiadau bregus. Dylai cwmnïau weithredu strategaethau yn gynnar yn 2021.

**Argymhelliad 6**
Dylai'r Academi Genedlaethol dros Bresgripsiynu Cymdeithasol, Iechyd Meddwl y DU a MaPS wneud eu hadnodd cymorth ariannol newydd ar gael yn gyflym drwy weithwyr cyswllt presgripsiynu cymdeithasol y GIG yn Lloegr erbyn diwedd 2020.

**Argymhelliad 7**
Dylai Surviving Economic Abuse arwain cynllun peilot o'r Ffurflen Tystiolaeth o Gam-drin Economaidd i gredydwyr ac asiantaethau cyfeirio credyd erbyn haf 2021 (i'w chyflwyno'n llawn yn hydref 2021). Byddai angen cyllid ychwanegol arno. Dylai'r cyllid hwn ddod gan gredwyr a chwmnïau cyfeirio credyd.

## Credyd a dyled

Mae credyd wedi bod yn glustog bwysig i helpu pobl drwy amgylchiadau anodd yn ystod argyfwng Covid. Yn anffodus, bydd gorddyled yn oblygiad i nifer, yn enwedig pan mae pobl yn colli eu swyddi.

**Argymhelliad 8**
Mae canllawiau'r FCA yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gefnogi pobl sy'n wynebu taliadau gohiriedig yn sgil Covid-19 gyda gorddrafft neu ymrwymiadau credyd cynyddol. Rydym yn erfyn ar gwmnïau i gynnig cynlluniau ad-dalu a diddymu llog i bobl sy'n profi anawsterau difrifol yn ddiofyn.

**Argymhelliad 9**
Dylai MaPS gynnal dau adolygiad i helpu'r sector cyngor ar ddyledion i fynd i'r afael â chynnydd disgwyliedig mewn galw. Dylai MaPS a'r Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl hyrwyddo gwasanaethau credyd a dyledion hygyrch i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

**Argymhelliad 10**
Dylai Fair4All Finance, Toynbee Hall a Fair by Design - gyda chefnogaeth Trysorlys Ei Mawrhydi, a chan adeiladu ar y canfyddiadau o'r astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan London Economics - fwrw ati gyda dylunio a threialu cynllun benthyciadau di-log wedi'i dargedu at y rheiny sydd â'r angen mwyaf.

## Argymhellion i'r llywodraeth

Mae llywodraethau ledled y DU wedi gwneud pethau eithriadol a thrawiadol i ymateb i ergydion ariannol argyfwng Covid. Gwnaethom adnabod tri maes gweithredu pwysig gan Lywodraeth y DU y credwn y dylid eu parhau, ymestyn, neu gyflymu.

**Argymhelliad 11**
Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ymestyn mesurau lliniaru a gyflwynwyd i helpu pobl sy'n dibynnu ar fudd-daliadau lles ac y mae eu sefyllfa ariannol wedi'i gwaethygu gan Covid-19. Gallai fynd ymhellach, a gwneud y system gydsynio ar gyfer Credyd Cynhwysol yn gyson â'r system ar gyfer budd-daliadau etifeddol.

**Argymhelliad 12**
Dylai Trysorlys Ei Mawrhydi a CThEM adeiladu ymhellach ar eu hymdrechion i roi cyhoeddusrwydd i 'Cymorth i Gynilo'. Dylent adolygu'n awr eu cynlluniau cyfathrebu a thargedu'n benodol unrhyw un sydd newydd ddod yn gymwys oherwydd argyfwng Covid.

**Argymhelliad 13**
Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau gadw'r newidiadau i reolau Tâl Salwch Statudol sydd wedi'u cyflwyno i ddelio ag argyfwng Covid. Gallai fynd ymhellach, drwy gyflwyno diwygiadau i Dâl Salwch Statudol a fyddai'n ei wneud yn ffynhonnell fwy cryf o gymorth ariannol i bawb, nid pobl gyda Covid yn unig.

**I lawrlwytho ein hadroddiad llawn, ewch i https://tinyurl.com/CovidRecommendationsReport**

# Ymateb MaPS

Mae MaPS yn croesawu gwaith y cadeiryddion annibynnol, a gefnogir gan eu haelodau 'Grŵp Her', ar yr adroddiad **'Adeiladu gwytnwch ariannol yng ngoleuni Covid-19'. Fel arweinwyr y sector o sawl maes yn berthnasol i lesiant ariannol, mae MaPS wedi talu sylw llawn i bobl un o'r 13 o argymhellion a gynhyrchwyd gan y Cadeiryddion ac mae wedi cyhoeddi ei ymateb i'r adroddiad yma. Isod ceir crynodeb o ymateb MaPS:**

| Argymhelliad | Aliniad â Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol | Grŵp targed: | Ymateb y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) | Manylion ynglŷn â sut y bydd MaPS yn cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| **1. Dylai MaPS gynnal rhaglen tri cham o godi ymwybyddiaeth, cydlynu negeseuon a phartneriaid drwy ddull hyblyg, i gyrraedd: pobl mewn perygl o orymrwymo i gredyd cost uchel; pobl ifanc mewn trafferthion ariannol sy'n ei chael hi'n anodd pontio i gyflogaeth/ addysg bellach; a phobl sydd mewn perygl o gael eu diswyddo.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio'n fras â phob un o'r agendâu ar gyfer newid o fewn Strategaeth y DU. | Tri grŵp targed: pobl mewn perygl o orymrwymo i gredyd cost uchel; pobl ifanc **mewn trafferthion ariannol sy'n ei chael** hi'n anodd pontio i gyflogaeth/ addysg bellach; a phobl sydd mewn perygl o gael eu diswyddo. | Mae'r argymhelliad hwn yn targedu cynulleidfaoedd sydd wedi cael eu heffeithio'n benodol gan bandemig Covid-19. Creda MaPS fod gan yr argymhelliad hwn **gryn rinwedd yn** nhermau atgyfeirio'r grwpiau hynny sydd wedi'u heffeithio'n benodol/yn fregus tuag at wasanaethau cymorth ac arweiniad arbenigol, yn cynnwys y rheiny a ddarperir gan MaPS, ei bartneriaid a nifer o aelodau'r Grwpiau Her a'r sector ehangach. | Bydd MaPS yn ailffocysu gweithgarwch ymgyrchu cyfredol i dargedu cynulleidfaoedd a amlygwyd gan y Cadeiryddion Annibynnol (e.e. yn ystod Wythnos Siarad am Arian). Bydd MaPS yn parhau i weithio â chyflogwyr ac asiantaethau ar draws y DU i gefnogi pobl mewn perygl o golli eu gwaith/sydd wedi colli eu gwaith, ac ystyried sut y gall gydlynu gyda phartneriaid ymdrech codi ymwybyddiaeth fawr wedi'i chyd-ariannu yn 2021/22 unwaith y mae cyllidebau yn hysbys ac wedi'u diogelu o fewn cyfyngiadau llywodraethu/ cymeradwyo gofynnol. |
| **2. Dylai rhaglen hyfforddiant 'Sgiliau Ariannol Hanfodol' gael ei chyd-ddylunio gan MaPS, gyda phobl ifanc, a'i hymgorffori ym mhob rhaglen a gefnogir gan y llywodraeth i bobl ifanc 16-24 oed a fydd yn arwain at swyddi a gyrfaoedd.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agenda ar gyfer newid 'Sylfeini Ariannol' o fewn Strategaeth y DU. | Pobl ifanc rhwng 16 - 24 oed sydd wedi cofrestru ar raglen a gefnogir gan y llywodraeth (e.e. prentisiaethau) i wella eu **llesiant ariannol** wrth iddynt gamu i'r byd gwaith ar ôl Covid-19. | Creda MaPS fod yr argymhelliad hwn yn alinio'n gryf â'n cylch gorchwyl statudol o **hyrwyddo addysg** ariannol ac y dylai arwain a chydlynu'r gwaith o'i gyflawni. | Bydd MaPS yn adeiladu ar y rhaglen 'youth checkpoints' a 'rapid recovery challenge fund' NESTA, fel rhaglenni cyfredol sy'n cefnogi cyflawni yn y maes hwn. Yn ogystal, bydd MaPS yn archwilio opsiynau ar gyfer sianeli cyflawni ar gyfer yr argymhelliad hwn yn cynnwys partneriaeth weithio agosach â cholegau addysg bellach a thargedu cynlluniau peilot gyda chyflogwyr mawr yn y DU. |

### Allwedd i'r tabl

- Argymhelliad ar gyfer y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS)
- Argymhellion i eraill ond sy'n cael eu cefnogi gan MaPS
- Argymhellion sydd y tu allan i gylch gwaith MaPS

| Argymhelliad | Aliniad â Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol | Grŵp targed: | Ymateb y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) | Manylion ynglŷn â sut y bydd MaPS yn cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| **3. Dylai MaPS ddatblygu offer cefnogi sgyrsiau rhwng rhieni/plant i helpu teuluoedd sy'n wynebu heriau ariannol ac iechyd meddwl gyda'i gilydd, gan dynnu ar dechnegau profedig, 'Siarad, Dysgu, Gwneud' a dreialwyd gan MaPS yn y gorffennol.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agenda ar gyfer newid 'Sylfeini Ariannol' o fewn Strategaeth y DU. | Teuluoedd sy'n wynebu'r heriau cyfunol o broblemau ariannol ac iechyd meddwl sy'n dymuno cael sgyrsiau am arian gartref, yn enwedig yng ngoleuni Covid-19. | Mae MaPS yn cefnogi'r egwyddorion y tu ôl i'r argymhelliad hwn gan y Cadeiryddion annibynnol. Fodd bynnag, creda MaPS heb werthuso tystiolaeth o **brosiectau braenaru** ac ymyriadau 'Siarad, Dysgu, Gwneud' cyfredol ymhellach, nid yw yn y sefyllfa orau i gyflawni'r ymyriad hwn ar hyn o bryd. | Mae MaPS yn ymrwymo i rannu ac adeiladu ar y data gwerthuso o'r **prosiectau braenaru** cyfredol yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.<br><br>Gan fod 'Siarad, Dysgu, Gwneud' **wedi'i wreiddio'n fwy dwfn** ledled y DU, bydd MaPS yn ystyried sut y gall cyflwyno yn y dyfodol helpu aelwydydd lle mae problemau ariannol ac iechyd meddwl. |
| **4. Dylai MaPS greu rhestr wirio hwyrach mewn bywyd ar gyfer pobl dros 50 oed sydd wedi cael eu heffeithio gan argyfwng Covid, yn enwedig pobl sy'n wynebu'r risg o gael eu diswyddo.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agenda ar gyfer newid 'Ffocws ar y Dyfodol' o fewn y Strategaeth. | Pobl dros 50 oed sydd wedi cael eu heffeithio gan argyfwng Covid-19, yn enwedig pobl sy'n wynebu'r risg o gael eu diswyddo. | Mae MaPS yn croesawu'r argymhelliad hwn fel cymorth uniongyrchol i bobl yn eu 50au y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt yn nhermau eu **cyllid, gwaith/gyrfa a** llesiant cyffredinol. Creda MaPS yr ymdrinnir yn rhannol â'r argymhelliad hwn eisoes drwy'r 'MOT canol bywyd' presennol. | Fel rhan o waith parhaus ar MOT 'Canol bywyd', bydd MaPS yn dwyn cynnwys perthnasol ynghyd fel adnodd digidol o'r enw 'rhestr wirio hwyrach mewn bywyd'. Yn 2021/22, bydd MaPS yn archwilio sianeli priodol ar gyfer dosbarthu'r adnodd hwn ac yn galluogi pobl dros 50 oed i gynllunio ar gyfer cyfnod hwyrach mewn bywyd yng nghanol argyfwng Covid-19. |
| **5. Dylai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ei wneud yn ofyniad penodol bod pob cwmni yn ymgorffori strategaethau bregusrwydd sy'n adlewyrchu'r ffyrdd y mae Covid-19 wedi dwysáu bregusrwydd presennol, a rhoi pobl newydd mewn amgylchiadau bregus. Dylai cwmnïau weithredu strategaethau yn gynnar yn 2021.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agenda ar gyfer newid 'Pwysigrwydd Credyd' o fewn Strategaeth y DU. | Mae Covid-19 wedi dwysáu bregusrwydd presennol, a rhoi pobl newydd mewn amgylchiadau bregus. Dylai cwmnïau weithredu strategaethau yn gynnar yn 2021. | Mae MaPS yn cytuno bod ystyried bregusrwydd pobl yn y modd mae'r sector yn ymateb i Covid-19 yn bwysig. | Bydd MaPS yn parhau i gymryd rhan mewn deialog adeiladol â'r FCA ar strategaethau bregusrwydd a chefnogi'r FCA i **arwain cwmnïau gwasanaethau ariannol i ddatblygu cynhyrchion** sy'n ystyriol o fregusrwydd yn sgil Covid-19. |
| **6. Dylai'r Academi Genedlaethol dros Bresgripsiynu Cymdeithasol, Iechyd Meddwl y DU a MaPS wneud eu hadnodd cymorth ariannol newydd ar gael yn gyflym drwy weithwyr cyswllt presgripsiynu cymdeithasol y GIG yn Lloegr erbyn diwedd 2020.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â phob un o'r agendâu ar gyfer newid o fewn Strategaeth y DU. | Pobl a gaiff eu hatgyfeirio i wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yng ngofal sylfaenol y GIG ac sydd â chymysgedd o bryderon ariannol a phroblemau iechyd meddwl. | Mae MaPS yn cydnabod ac yn cefnogi'r cyfleoedd sy'n bodoli o fewn gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol a ddylunnir ac a ddarperir yn lleol i ddarparu cymorth ac arweiniad o safbwynt **llesiant ariannol** i'r rheiny a all fod ei angen o ganlyniad i argyfwng Covid-19. | Mae MaPS wedi cyd-ddatblygu'r adnodd ar y cyd â Mental Health UK a'r Academi Genedlaethol ac fe'i rhyddhawyd ym mis Hydref 2020 o ganlyniad i natur frys y sefyllfa. |

| Argymhelliad | Aliniad â Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol | Grŵp targed: | Ymateb y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) | Manylion ynglŷn â sut y bydd MaPS yn cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| **7. Dylai Surviving Economic Abuse arwain cynllun peilot o'r Ffurflen Tystiolaeth o Gam-drin Economaidd i gredydwyr ac asiantaethau cyfeirio credyd erbyn haf 2021 (i'w chyflwyno'n llawn yn hydref 2021). Byddai angen cyllid ychwanegol arno. Dylai'r cyllid hwn ddod gan gredwyr a chwmnïau cyfeirio credyd.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agendâu ar gyfer newid 'Pwysigrwydd Credyd' a 'Cyngor ar Ddyledion Gwell' o fewn Strategaeth y DU. | Pobl (merched yn bennaf) sydd wedi dioddef effaith ddwbl yn sgil Covid-19 a **rheolaeth ariannol fel** rhan o gam-drin economaidd. | Mae MaPS yn croesawu'r argymhelliad hwn gan y cadeiryddion Annibynnol ar gefnogi'r rheiny a all fod yn dioddef cam-drin economaidd yng nghanol argyfwng Covid-19. | Bydd MaPS yn cefnogi Surviving Economic Abuse i gyflawni cynllun peilot o'r Ffurflen Tystiolaeth o Gam-drin Economaidd yn Lloegr erbyn Haf 2021. Yn ogystal, bydd MaPS yn archwilio cyfleoedd i barhau i gefnogi cyflwyno'r cynllun drwy gyllido cam o'r prosiect yn 2021/22. |
| **8. Mae canllawiau'r FCA yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gefnogi pobl sy'n wynebu taliadau gohiriedig yn sgil Covid-19 gyda gorddrafft neu ymrwymiadau credyd cynyddol. Rydym yn erfyn ar gwmnïau i gynnig cynlluniau ad-dalu a diddymu llog i bobl sy'n profi anawsterau difrifol yn ddiofyn.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agenda ar gyfer newid 'Pwysigwydd Credyd' o fewn Strategaeth y DU. | Y bobl hynny a fydd yn wynebu heriau o safbwynt **llesiant ariannol** ar ôl i daliadau gohiriedig yn sgil Covid-19 ddod i ben. | Mae MaPS yn cytuno â'r Cadeiryddion annibynnol wrth gydnabod y **sefyllfa anodd** bosib ar gyfer pobl sy'n dod allan o daliadau gohiriedig yn sgil Covid-19. | Bydd MaPS yn cefnogi'r argymhelliad hwn drwy barhau i ddadlau'r achos ar gyfer y rheiny a all wynebu **anawsterau ariannol wrth adael prosesau gohirio taliadau yn sgil** Covid-19. Bydd MaPS yn atgyfeirio i'r 'Teclyn Llywio Ariannol', wedi'i ddylunio i helpu **pobl i reoli eu sefyllfaoedd ariannol yng ngoleuni** Covid-19. |
| **9a. Dylai MaPS gynnal dau adolygiad i helpu'r sector cyngor ar ddyledion i fynd i'r afael â chynnydd disgwyliedig mewn galw.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agenda ar gyfer newid 'Cyngor ar Ddyledion Gwell'. | Pobl y bydd angen cyngor ar ddyledion arnynt yng nghyd-destun pandemig y Coronafeirws. | Mae MaPS yn croesawu ac yn cefnogi'r argymhelliad hwn gan y Cadeiryddion annibynnol. Bydd MaPS yn gweithio i gyflawni'r adolygiadau dyled o fewn ei gyfrifoldeb. | Bydd MaPS yn cynnal adolygiad cyflym o'r cyfnod clo ac ymbellhau cymdeithasol a'r galw am gyngor ar ddyledion.<br><br>Bydd MaPS yn cwblhau adolygiad o gwsmeriaid nad ydynt yn cael eu gwasanaethu cystal gan gyngor ar ddyledion i'w gychwyn yn 2021/22. |
| **9b. Dylai MaPS a'r Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl hyrwyddo gwasanaethau credyd a dyledion hygyrch i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agenda ar gyfer newid 'Pwysgirwydd Credyd'. | Mae MaPS yn cytuno bod ystyried bregusrwydd pobl yn y modd mae'r sector yn ymateb i Covid-19 yn bwysig. | Bydd MaPS yn parhau i gymryd rhan mewn deialog adeiladol â'r FCA ar strategaethau bregusrwydd a chefnogi'r **FCA i arwain cwmnïau gwasanaethau ariannol i** ddatblygu cynhyrchion sy'n ystyriol o fregusrwydd yn sgil Covid-19. | Mae MaPS yn ymrwymo i rannu ac adeiladu ar y data gwerthuso o'r **prosiectau braenaru cyfredol yng** Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.<br><br>Bydd MaPS yn gweithio â MMHPI i ddatblygu safonau hygyrch i gredydwyr |

| Argymhelliad | Aliniad â Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol | Grŵp targed: | Ymateb y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) | Manylion ynglŷn â sut y bydd MaPS yn cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| **10. Dylai Fair4All Finance, Toynbee Hall a Fair by Design - gyda chefnogaeth Trysorlys Ei Mawrhydi, a chan adeiladu ar y canfyddiadau o'r astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan London Economics - fwrw ati gyda dylunio a threialu cynllun benthyciadau di-log wedi'i dargedu at y rheiny sydd â'r angen mwyaf.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agenda ar gyfer newid 'Pwysgirwydd Credyd' o fewn Strategaeth y DU. | Mae Covid-19 wedi gadael nifer o bobl gyda llai o incwm. Mae'n bosib eu bod yn fwy dibynnol ar Gredyd Cynhwysol. Ac efallai na fyddant yn gallu cael mynediad at gredyd fforddiadwy oherwydd crebachiad mewn benthyca. Mae menywod, rhieni sengl a'r rheiny ar incymau isel wedi cael eu heffeithio'n arbennig. | Mae MaPS yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau o waith Fair4All Finance, Toynbee Hall a Fair by Design ar y cynllun peilot. | Bydd MaPS yn adolygu hyn, yn cynnwys datblygu syniadaeth ar ymestyn cynlluniau peilot ar draws y cenhedloedd datganoledig. |
| **11. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ymestyn mesurau lliniaru a gyflwynwyd i helpu pobl sy'n dibynnu ar fudd-daliadau lles ac y mae eu sefyllfa ariannol wedi'i gwaethygu gan Covid-19. Gallai fynd ymhellach, a gwneud y system gydsynio ar gyfer Credyd Cynhwysol yn gyson â'r system ar gyfer budd-daliadau etifeddol.** | Amherthnasol | Amherthnasol | Mae'r argymhelliad hwn y tu hwnt i gwmpas MaPS ac mae ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau i'w ystyried. | Bydd MaPS yn rhannu'r argymhelliad hwn â'i adran sy'n ei noddi, yr Adran Gwaith a Phensiynau. |
| **12. Dylai Trysorlys Ei Mawrhydi a CThEM adeiladu ymhellach ar eu hymdrechion i roi cyhoeddusrwydd i 'Cymorth i Gynilo'. Dylent adolygu'n awr eu cynlluniau cyfathrebu a thargedu'n benodol unrhyw un sydd newydd ddod yn gymwys oherwydd argyfwng Covid.** | Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â'r agenda ar gyfer newid 'Cenedl o Gynilwyr' o fewn Strategaeth y DU. | Pobl nad ydynt yn gwybod y bydd y Llywodraeth yn rhoi hwb i unrhyw gynilion y maent yn eu rhoi mewn cyfrifon 'Cymorth i Gynilo'. | Mae MaPS yn croesawu'r argymhelliad hwn gan y Cadeiryddion annibynnol. Dengys ymchwil MaPS fod cynnyrch cynilo cymhellol yn gweithio'n dda wrth ddenu cynilwyr **ac mae cael** cymhelliannau ariannol i gynilo, megis 'Cymorth i Gynio', yn helpu i ffurfio arferion cynilo. | Mae MaPS yn gweithio'n agos â ThEM a CThEM ar hyrwyddo 'Cymorth i Gynilo' a bydd yn parhau i ymgysylltu'n adeiladol yn ystod 2021. |
| **13. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau gadw'r newidiadau i reolau Tâl Salwch Statudol sydd wedi'u cyflwyno i ddelio ag argyfwng Covid. Gallai fynd ymhellach, drwy gyflwyno diwygiadau i Dâl Salwch Statudol a fyddai'n ei wneud yn ffynhonnell fwy cryf o gymorth ariannol i bawb, nid pobl gyda Covid yn unig.** | Amherthnasol | Amherthnasol | Mae'r argymhelliad hwn y tu hwnt i gwmpas MaPS ac mae ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau i'w ystyried. | Bydd MaPS yn rhannu'r argymhelliad hwn â'i adran sy'n ei noddi, yr Adran Gwaith a Phensiynau. |

# Sut bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu yng Nghymru?

MaPS gyda chyngor Fforwm Cymru fydd y cydlynydd ar gyfer yr argymhellion ymateb i Covid-19 yng Nghymru. Byddant yn gweithio drwy ymgynghori'n agos â phartneriaid, yn cynnwys Llywodraeth Cymru i gyflawni'r cynigion tymor byr a thymor hir ar gyfer cynllun cyflawni Cymru ar gyfer Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol.

## Argymhellion penodol i Gymru

Yn ystod y 'byrddau crwn rhithiol' a gynhaliwyd yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020, trafododd dros 100 o fynychwyr o 70 o gyrff rhanddeiliaid gwahanol effaith Covid-19 ar lesiant ariannol ar draws nifero feysydd ac agendâu ar gyfer newid. O ganlyniad, gwnaethpwyd argymhellion sy'n disgyn y tu allan i argymhellion cyffredinol y DU ac efallai fod angen eu hymchwilio ymhellach mewn cyd-destun penodol i Gymru. Gweler y rhain isod:

### Cefnogi plant a phobl ifanc

Rhwng mis Ionawr 2016 a mis Mai 2017, treialodd y Gwasanaeth Cyngor Ariannol, 'Siarad, Dysgu, Gwneud' yng Nghymru. Ers hynny, mae dros 500 o ymarferwyr rhianta ac eraill sy'n gweithio â rhieni wedi derbyn hyfforddiant i ddarparu'r ymyriad hwn yng Nghymru. Bydd MaPS yn gweithio â Llywodraeth Cymru i wreiddio ei ddarpariaeth ymhellach.

Bydd MaPS yn gweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant yng Nghymru. Bydd cydweithio cychwynnol yn canolbwyntio ar ddefnyddio 'Wythnos Siarad am Arian' ym mis Tachwedd 2020.

***Ar hyn o bryd mae MaPS yn cyllido dysgu proffesiynol i athrawon yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r consortia addysg rhanbarthol. Bydd MaPS a Cymorth i Ferched Cymru yn cydweithio i sicrhau bod neges gyson mewn unrhyw hyfforddiant perthnasol a ddarperir ganddynt ynglŷn â phwysigrwydd llesiant ariannol mewn hyfforddiant ar gam-drin economaidd bwlch cyflog rhwng y rhywiau.***

Mae MaPS a Martin Lewis (Money Savings Expert) yn cyd-ariannu 'Young Enterprise' i ddatblygu gwerslyfr i gefnogi athrawon yng Nghymru i ddarparu addysg ariannol i fyfyrwyr ysgolion uwchradd. Bydd hwn yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru yn 2021.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r hyfforddiant penodol i Gymru **Sgiliau Ariannol Hanfodol** i bobl ifanc a ddatblygwyd gan MaPS a'i gyd-ddylunio â phobl ifanc.

### Cefnogi pobl o oedran gweithio

Gallai MaPS a Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr iechyd meddwl adeiladu ar yr argymhelliad y **'dylai'r Academi Genedlaethol dros Bresgripsiynu Cymdeithasol, Iechyd Meddwl y DU a MaPS wneud eu hadnodd cymorth ariannol newydd ar gael yn gyflym drwy weithwyr cyswllt presgripsiynu cymdeithasol y GIG yn Lloegr'** ac yna archwilio os yw hyn yn bosib i'w atgynhyrchu yn y tymor byr yng Nghymru.

Gan weithio â'r sector Credyd Fforddiadwy a'r Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru hefyd, mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o argaeledd credyd fforddiadwy ac osgoi benthyca anghyfreithlon. Yng Nghymru, gallai hyn ffurfio rhan o'r argymhelliad y dylai **Llywodraeth EM ariannu ymgyrch cenedlaethol wedi'i anelu at bawb sy'n ailystyried eu harian yng ngoleuni Covid-19**. I ategu hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallai MaPS archwilio cynlluniau i ddatblygu teclyn lleoli credyd fforddiadwy sy'n darparu manylion ynglŷn ag Undebau Credyd, Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol a ffynonellau perthnasol eraill o gredyd fforddiadwy ledled y DU, gan ddarparu mynediad/aelodaeth/manylion cymhwystra (bond cyffredin a/neu arall).

Gan adeiladu ar yr argymhelliad y **dylai Surviving Economic Abuse arwain cynllun peilot o'r Ffurflen Tystiolaeth o Gam-drin Economaidd i gredydwyr ac asiantaethau cyfeirio credyd**, mae angen i ni ymchwilio a oes yna ganlyniad cadarnhaol i gysylltu'r Ffurflen Tystiolaeth o Gam-drin Economaidd â Phrotocol Treth Gyngor Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru a MaPS yn edrych ar rannu'r gwersi o'r **cynllun benthyciadau di-log wedi'i dargedu at y rheiny sydd â'r angen mwyaf** a bydd yn ystyried sut y bydd hyn o fudd i bobl ledled Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hyd at £1 miliwn yn ychwanegol yn ystod 2020/21 wrth i undebau credyd gefnogi'r rheiny mewn angen yn ystod argyfwng cyfredol y coronafeirws; gyda'r nod o sicrhau bod pawb y mae angen credyd arnynt yn gallu cael gafael ar wasanaethau ariannol fforddiadwy gan undebau credyd.

Dylai MaPS a thîm 'Iechyd Meddwl a Chyngor Ariannol' Hafal edrych ar rannu'r hyfforddiant arweiniad ariannol a gyd-ddyluniwyd wedi'i ddatblygu ar gyfer ymarferwyr rheng flaen sy'n gweithio ag unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl ledled Cymru. Dylid rhannu'r hyfforddiant hwn yn ehangach ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Dylai MaPS ag Youth Cymru a Promo Cymru, rannu'r gwersi o'r cynllun peilot 'youth checkpoints' sy'n awgrymu bod cyfle i ymgorffori arweiniad ariannol i oedolion ifanc ar 'siecbwyntiau' lle mae pobl ifanc eisoes yn rhyngweithio â systemau i gefnogi cyflogadwyedd a byw'n annibynnol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau arweiniad ariannol ar adegau lle mae pobl ifanc eisoes yn ymgysylltu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag undebau credyd i ddarparu benthyciadau llog isel i denantiaid y sector rhentu preifat mewn perygl o gael eu troi allan drwy Gynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth. Bydd hyn yn darparu ffordd fforddiadwy o dalu ôl-ddyledion rhent, neu rent misoedd i ddod. Bydd y benthyciadau hyn yn cael eu talu'n uniongyrchol i landlordiaid ac ar gael i denantiaid nad oeddent mewn ôl-ddyledion rhent sylweddol cyn 1 Mawrth 2020.

Drwy ei waith dyled ei hun, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi **dau adolygiad cyflym i helpu i annog gwelliannau yn y sector cyngor ar ddyledion cyn y cynnydd disgwyliedig yn y galw am gyngor ar ddyledion.**

Bydd y sector cyngor ar ddyledion yng Nghymru yn cyfrannu at **grŵp gorchwyl a gorffen traws-sector i gyflymu mynediad at wasanaethau cyngor ar ddyledion a chredyd i bobl â phroblemau iechyd meddwl.**

Bydd rhanddeiliaid yng Nghymru, yn cynnwys y llywodraeth yn cefnogi **Trysorlys EM i hyrwyddo "Cymorth i Gynilo' i bawb a allai elwa, yn enwedig y rheiny wedi'u heffeithio o'r newydd gan Covid-19.** Bydd Rheolwr Partneriaeth Cymru MaPS yn hyrwyddo'r cynllun i gyflogwyr fel sy'n briodol.

## Cefnogi pobl hŷn

Bydd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) yn gweithio gyda Swyddfeydd Post yng Nghymru i archwilio sut y gallwn rannu ein cynnwys trwy eu gwefan PostOffice.co.uk a'u sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Gan adeiladu ar yr argymhelliad, dylai MaPS greu rhestr wirio ar gyfer pobl dros 50 oed sydd wedi cael eu heffeithio gan yr argyfwng Covid-19, yn enwedig pobl sydd mewn perygl o gael eu diswyddo. Dylai MaPS weithio gyda 'Busnes yn y Gymuned' yng Nghymru i ddeall eu MOT Canol Oes (a elwir hefyd yn Adolygiad Canol Gyrfa) a gyflwynir fel rhan o'u rhaglen Gweithleoedd Cyfeillgar i Oed a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. A oes yna ddysgu y gallai MaPS ei ddefnyddio?

## Casgliad a'r camau nesaf

Dylai'r argymhellion Covid-19 gael eu cyflawni erbyn diwedd 2021. Bydd yr argymhellion sy'n berthnasol i Gymru'n ffurfio'r argymhellion tymor byr yng nghynllun cyflenwi Cymru.

Mae'r gwaith ar yr argymhellion ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir eisoes ar y gweill. Mae Fforwm Cymru'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) wedi cwblhau Theori Newid ar gyfer y canlyniadau sydd eu hangen yng nghynllun cyflenwi Cymru ar gyfer Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol. Bydd hyn yn helpu i lywio'r rownd nesaf o gyfarfodydd bord gron rhithwir yng Nghymru a fydd yn dechrau ym mis Hydref.

# Atodiad

## Mae Llesiant Ariannol yn cyfrannu at ganlyniadau y Strategaeth a Pholisi Llywodraeth Cymru 2020 canlynol

Portffolio'r Cabinet

Rhaglenni a Pholisiau

### Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

**Economi**

- Cynllun Mynd i'r Afael â Thlodi
- Cynllun Gweithredu Economaidd
- Cronfa Cadernid Economaidd
- Banc Datblygu Cymru
- Cynllun Tocynnau Rhatach
- Gwasanaeth Bathodyn Glas
- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
- Cynllun Cyflawni/Cyllid Trafnidiaeth Genedlaethol
- Prentisiaethau yn cynnwys datblygu fframwaith
- Swyddi dan hyfforddiant
- Twf Swyddi Cymru
- ReAct
- Mynediad
- Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd
- Cronfa Dysgu Undeb Cymru
- Fframwaith Dilyniant Ieuenctid
- Dysgu Troseddwyr
- Cymru'n Gweithio
- Cynllun Cyflogadwyedd
- Cymunedau am Waith
- Cymunedau am Waith a Mwy
- PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth)
- Tasglu'r Cymoedd
- Digidol 2030
- Strategaeth Addysg Uwch

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

- Rhaglen Rheoli Tir y Dyfodol
- Polisi Rheoli Amaethyddiaeth a Thir
- Cronfa Forol a Physgodfeydd Ewrop
- Polisi Dŵr
- Polisi Bwyd
- Polisi Adnoddau Naturiol
- Cynllun Datblygu Gwledig
- Strategaeth Ddŵr
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel
- Strategaeth Effeithiolrwydd Ynni 2016 - 2026
- Ynni Cymru: Trosglwyddo i Garbon Isel
- **Rhaglen Datgarboneiddio Cartrefi**

### Swyddfa Prif Weinidog Cymru

- Dyletswydd Cymdeithasol-Economaidd Cymru
- Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor
- Cynllun Gweithredu Twristiaeth
- Gwneud Cymru'n Genedl Decach
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

### Gwasanaethau Addysg a Chyhoeddus

**Addysg**

- Cwricwlwm ysgol cyfredol
- Symud tuag at gwricwlwm newydd
- Y Blynyddoedd Cynnar
- Grant Datblygu Disgyblion
- Rhaglenni addysg athrawon cychwynnol
- Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
- Rhifedd Mathemateg TGAU
- Meysydd Dysgu a Phrofiad
- Cronfa Sgiliau Hyblyg
- Dysgu i'r Teulu
- Dysgu yn y Gymuned
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid
- Addysg Bellach gan gynnwys Cymorth i Fyfyrwyr
- Seren
- **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

**Gwasanaethau Cyhoeddus**

- Polisi Tai Fforddiadwy
- Rhaglen Tystiolaeth Amodau Tai
- Grant Cymorth Tai
- Rhaglen HWYLUSTOD
- Rhaglen RRAP
- Rhentu Doeth Cymru
- Strategaethau Cymunedol
- Gweinyddu Diogelwch Cymunedol
- Adennill Dyledion
- Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol i Gymru
- Strategaeth Cynhwysiant Ariannol
- Safonau Ansawdd Tai Cymru
- Rhaglen Cartrefi Clyd
- Cronfa Cymorth Dewisol
- Lliniaru Diwygio Llesiant
- Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio
- Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024
- **Cynllun gweithredu Gweithredu ar anabledd: yr hawl i fyw'n annibynnol**
- **Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019**
- **Deddf y Coronafeirws 2020**
- **Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a hawliau cysylltiedig (Cymru) 2018**
- **Deddf Tai (Cymru) 2014**
- **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.**
- **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

### Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol

- Cyfraddau Annomestig
- Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach
- Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr
- Buddion y Gymuned
- Y Dreth Gyngor
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

### Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol

- Strategaeth Tlodi Plant
- Dechrau'n Deg
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Rhaglenni Magu Plant
- Gwella canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal
- Cynnig Gofal Plant
- Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb
- Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn
- Cynlluniau Cyflawni Cyflyrau Iechyd Difrifol
- Cynllun Cyflawni Cancr
- Strategaeth Gofalwyr Cymru
- Mesur Gofalwyr
- Cronfa Gofal Integredig
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
- **Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru 2017**

### Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Iaith Gymraeg

- Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl
- Cynllun Gweithredu ar Ddementia i Gymru 2018-2022
- Strategaeth ordewdra
- Polisi Darlledu
- Strategaeth Iaith Gymraeg
- Cynllun Darparu Iechyd Meddwl i Gymru 2019-2022
- Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd
- Fframwaith Cymru Iachach
- Cymru Iach ar Waith
- Bil Partneriaethau Cymdeithasol

→ Rhaglenni a Pholisiau Llywodraeth y DU e.e. Taliad Tai yn ôl Disgresiwn, Deddf Diwygio Lles a Deddfwriaeth Budd-dal Tai, Credyd Cynhwysol, Taliad

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Lee Phillips, Rheolwr Cymru: lee.phillips@maps.org.uk

moneyandpensionsservice.org.uk

Gwasanaeth Arian a Phensiynau